



# **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

## **POLISI CAFFAEL**

### **CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL**

*'Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg / This document is also available in English'*

**Mawrth 2023**

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw un o gynghorau mwyaf Cymru ac ar hyn o bryd mae'n gwario tua £232 miliwn y flwyddyn gyda sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector ar y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
- 1.2. Mae'r ffyrdd y mae sefydliadau llywodraeth leol yn caffael yn newid. Yn flaenorol **roedd y system yn canolbwyntio ar ffactorau ariannol yn unig**. Serch hynny, o ganlyniad i'r Bil Caffael arfaethedig bydd y system yn symud o'r dull gwerthuso 'pris ac ansawdd' traddodiadol (hynny yw'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd) ac yn gweithredu dull sy'n fwy eang. Bydd y dull newydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer pob proses caffael (hynny yw'r tendr mwyaf manteisiol). A ninnau'n sefydliad y sector cyhoeddus mae caffael yn parhau i fod yn angenrheidiol, felly mae'n rhaid i ni barhau i sicrhau gwerth am arian. Serch hynny, rydyn ni'n ceisio sicrhau ein bod ni'n cyflawni deilliannau cynaliadwy sydd o fudd i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.
- 1.3. Rhaid sicrhau bod aferion moesegol, teg a chyfrifol ar waith trwy gydol y broses gaffaelac yn ein cadwyni cyflenwi. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored, yn dryloyw, ac yn deg i bawb. Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl wrth contractio â sefydliadau allanol, mae'n hanfodol ein bod ni'n cyflawni gwerth cymdeithasol, yn lleihau ein hól troed carbon, ac yn cefnogi busnesau lleol i dendro yn rhan o'r broses gaffael.

## 2. NOD Y POLISI

- 2.1. Mae'r disgwyliadau caffael sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn dechrau gyda dyletswydd gyffredinol ar yr awdurdodau sy'n contractio gwaith i geisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gyflawni caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol. Mae hyn yn golygu cymryd camau i gyflawni'r nodau llesiant a'r nod gwaith teg (*y 'nodau caffael cymdeithasol gyfrifol'*), ar gyfer cynifer o brosesau contractio â phosibl.
- 2.2. Mae'r polisi yma'n amlinellu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflawni'r nodau caffael cymdeithasol gyfrifol .

## 3. BLAENORIAETHAU AC AMCANION LLESIANT Y CYNGOR

- 3.1 Cytunodd y Cyngor ar ei blaenoriaethau corfforaethol newydd a Chynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-24, '*Gwneud Gwahaniaeth*' yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 4 Mawrth 2020. Cytunodd y Cyngor bydd y tair blaenoriaeth gorfforaethol yma yn cael eu cynnwys yn amcanion Llesiant y Cyngor. Mae dyletswydd ar y Cyngor i osod yr amcanion yma yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 3.2 Dyma weledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r Cyngor:

**Gweledigaeth** – *i Rondda Cynon Taf fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus.*

Dyma fwriad y Cyngor a'r **rheswm** dros ei fodolaeth:  
"Darparu arweinyddiaeth gref yn y gymuned a chreu amgylchedd lle mae modd i bobl a busnesau fod yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus."

Dyma flaenoriaethau corfforaethol ac amcanion lles y Cyngor:



- 3.3 Yn ogystal â nodi'r tri maes o flaenoriaeth – Pobl, Lleoedd a Ffyniant – mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Cyngor:


*Ein her fwyaf fydd cyflawni ymrwymiad y Cyngor sef "Cyngor Nwy Tŷ Gwydr Sero Net erbyn 2030" sydd 20 blynedd yn gynt nag argymhelliad Pwyllgor y DU ar faterion Newid yn yr Hinsawdd. Rydyn ni'n cymryd yr her yma o ddifrif, ac yn edrych ymlaen at gyrraedd y nod yma wrth i ni weithio gyda'n gilydd, yn drigolion ac yn fusnesau lleol, i newid y ffordd rydyn ni'n byw ein bywydau.*

- 3.4 Mae [Strategaeth Comisiynu, Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2021-2024](#) y Cyngor yn nodi 3 thema strategol sy'n dangos sut bydd y Gwasanaeth yn cefnogi gwaith cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r themâu yma'n cynnwys camau a fydd yn helpu i gyflawni gwerth cymdeithasol, yn sicrhau triniaeth foesebol a theg, lleihau ein hól troed carbon a cheisio caffael yn lleol lle bo hynny'n bosibl.

## 4. FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO AR GYFER CAFFAEL

- 4.1. Dyma grynodedb o'r fframwaith rheoleiddio (*mae manylion pellach wedi'u cynnwys o fewn Strategaeth Comisiynu, Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2021-2024*):

Dyma grynodeb o'r fframwaith Rheoleiddio a Pholisi:



## 5. FFRAMWAITH 'ARFERION MOESGOL' Y CYNGOR

### Cyflogaeth Foesegol a Gwaith Teg

- 5.1. Lansiodd Cod Ymarfer 'Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi' yn 2017 gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol sy'n cyflwyno contractau ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Anogir pob sefydliad sector cyhoeddus i ymuno â'r Cod ac anogir busnesau yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus i'w fabwysiadu. Nod y Cod yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn unol â geiriau ac ysbryd deddfau'r DU, yr UE a deddfau rhyngwladol. Mae gan y cod 12 ymrwymiad sydd wedi'u cynllunio i ddileu caethwasiaeth fodern a chefnogi arferion cyflogaeth foesegol.
- 5.2. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau safon uchel o arferion masnach foesegol, ar draws ei weithrediadau caffael. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'w gyflenwyr, darparwyr gwasanaeth a chontractwyr gadw at ymrwymadau'r cod a dangos ymrwymiad tebyg i raglen barhaus o sicrhau a, lle bo angen, gwella arferion moesegol yn lleol ac yn ehangach.
- 5.3. Bydd y Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau ei fod yn caffael yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sydd eu hangen mewn ffordd foesegol yn ôl dull y Cyngor o gaffael ac o ran y safonau rydyn ni'n disgwyl i'n cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr eu cyrraedd.

### Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

- 5.4. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw enghraifft o [Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl](#) o fewn ei gadwyn gyflenwi. Yn unol â Deddf Caethwasiaeth

Fodern 2015, mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb fel cyflogwr i fod yn effro i'r achosion posibl o gaethwasiaeth fodern ac i roi gwybod am achosion neu bryderon o'r fath i'r cyrff perthnasol.

- 5.5. Yn rhan o'i brosesau tendro a chontractio, bydd y Cyngor yn ceisio sicrwydd gan ddarparu gyflenwyr bod ganddyn nhw brosesau addas a chadarn ar waith i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern yn y sefydliad. Bydd y Cyngor yn disgwyl i gyflenwyr fod yn gyfrifol am ofyn am sicrwydd tebyg gan eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

### **Chwythu'r Chwiban**

- 5.6. Mae gan y Cyngor Polisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban. At ddibenion y polisi yma, mae 'gweithwyr' yn cyfeirio at bawb sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor a hefyd, y sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor - h.y. Gweithwyr, Contractwyr a Chyflenwyr.
- 5.7. Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban yma i annog a galluogi gweithwyr i [roi gwybod am bryder](#) yn hytrach nag anwybyddu'r broblem.
- 5.8. Bwriad y Polisi a'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban yw cwmpasu camweddau difrifol, megis:
  - defnyddio adnoddau neu arian cyhoeddus mewn modd anghyfreithlon, llwgr neu afreolaidd,
  - unrhyw fath o ymddygiad sy'n achosi perygl difrifol i iechyd y cyhoedd, i ddiogelwch, i'r amgylchedd neu i gynhaliaeth y gyfraith,
  - unrhyw dramgwydd troseddol,
  - esgeulustod neu gamreoli difrifol gan swyddogion cyhoeddus.

### **Diogelu Corfforaethol**

- 5.9. Mae [Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor](#) yn rhoi fframwaith ar gyfer pob Gwasanaeth y Cyngor, gan gynnwys y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau trydydd parti ar ran y Cyngor. Mae'r Polisi yma'n amlinellu cyfrifoldebau o ran diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, a dulliau o wirio bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau.

## **6. CYNGOR CARBON NIWTRAL**

- 6.1. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn "Gyngor carbon niwtral erbyn 2030".
- 6.2. Mae'n rhaid i'r Cyngor leihau ei ôl troed carbon ar draws pob gweithgaredd er mwyn cwrdd â'i uchelgais o fod yn garbon niwtral. Mae'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a'r gwasanaethau wedi'u caffael yn achosi'r gyfran fwyaf o ôl troed carbon y Cyngor.
- 6.3. Mae'r Strategaeth Gaffael yn nodi'r prif gamau a fydd yn helpu i lywio sut mae modd adolygu a lleihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael.

## **7. DEFNYDDIO LLAI O GYNNYRCH PLASTIG UNTRO**

- 7.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau ei ddefnydd o gynnyrch plastig untro lle bo hynny'n bosibl.
- 7.2 Mae eitemau penodol eisoes wedi'u tynnu oddi ar system e-gaffael y Cyngor, gyda rhagor o gynnyrch cynaliadwy / aml-ddefnydd ar gael i staff. Trwy weithio'n agos â chyflenwyr a meysydd gwasanaeth, bwriad y Cyngor yw hyrwyddo defnyddio cynnyrch cynaliadwy ac ymchwilio i'r maes yma.

## **8. BWRDEISTREF SIROL MASNACH DEG**

- 8.1 Mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r defnydd o gynnyrch Masnach Deg megis Te, Coffi a Siwgr. Mae modd dod o hyd i'r eitemau yma ar system e-gaffael y Cyngor.
- 8.2 Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi grŵp Masnach Deg y Gymuned, sy'n cael ei gynnal gan wirfoddolwyr yn ystod yr achlysur blynyddol Cegaid o Fwyd Cymru.

## **9. CAFFAEL YN LLEOL**

### **Hysbysiad Polisi Caffael Cymru 07/21 Caffael sy'n gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig**

- 9.1 Mae Polisi Caffael Cymru 07/21 yn amlinellu sut dylai awdurdodau contractio gefnogi Busnesau Bach a Chanolig. Mae'n tynnu sylw at y [Siarter Agor Drysau i Gaffael sy'n gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig](#), ac yn adeiladu ar yr egwyddorion sydd i'w gweld yn y siarter. Er dydy'r egwyddorion yma ddim wedi'u nodi'n uniongyrchol yn y Datganiad Polisi Caffael Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'r egwyddorion dal yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus a Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru.
- 9.2 Mae'r Cyngor yn parhau i groesawu'r cyfle i weithio gyda Busnesau Bach a Chanolig lle bo hynny'n ymarferol bosibl. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn trwy sicrhau bod yna broses deg, agored a thryloyw sydd ddim yn gwahaniaethu yn erbyn Busnesau Bach a Chanolig.
- 9.3 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl brosesau yn sicrhau cyfleoedd cyfartal ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig.

## **10. SICRHAU GWERTH CYMDEITHASOL**

### **Fframwaith Gwerth Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf**

- 10.1 Mae'r gofyniad i ddatblygu a gweithredu trefniadau cadarn i sicrhau 'gwerth cymdeithasol' yn rhan o drefniadau contractio'r Cyngor yn thema allweddol ym Mil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).
- 10.2 Mae gan y Cyngor 32 o fesurau i'w gweithredu ym mhob tendr gwerth dros £75,000 ac sy'n cefnogi amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dyma fesurau manwl sydd wedi'u targedu ar gyfer anghenion y

Cyngor a'i fwriad i sicrhau'r gwerth ychwanegol gorau posibl i'r ardal leol. Mae'r mesurau yma'n cyd-fynd â deilliannau Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol.

- 10.3 Mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod pob contract sydd dros y trothwy perthnasol (£75 mil) yn cynnwys deilliannau Gwerth Cymdeithasol, gan y bydd y rhain yn cael effaith gadarnhaol ar drigolion, cymunedau, cynaliadwyedd amgylcheddol, a'r economi.
- 10.4 Mae adnoddau yn eu lle i adrodd a monitro cynnydd.

## **11. ADRODD A MONITRO**

- 11.1 Bydd y Gwasanaeth Caffael yn llunio adroddiad blynyddol sy'n nodi sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r egwyddorion allweddol yn y ddogfen hon. Bydd copi o'r adroddiad ar gael ar ein gwefan.